Cwymp y Dail

Cysyniadau:	**Gwerthfawrogiad, meddwl am eraill, dangos parch.**
Amcan:	**Gwerthfawrogi nodweddion y tymhorau.**
Cyfarpar:	**Detholiad o ddail ar y bwrdd. Un ddeilen werdd ymysg y dail sydd wedi newid eu lliw. Brigyn efo blagur arno.**

Cyflwyniad:

● Beth sydd wedi digwydd i'r dail?

● Ym mha dymor mae'r dail yn syrthio oddi ar y coed?

(Efo plant y Cyfnod Sylfaen nid oes rhaid manylu ar y rheswm pam mae'r dail yn syrthio ond gyda Chyfnod Allweddol 2 gellir ymhelaethu ar hyn.)

● Mae'r dail yn newid eu lliw ac yn syrthio i'r ddaear. Yn nhymor yr hydref maen nhw'n brydferth iawn yn amrywio o liwiau melyn, brown ac oren.

● Tynnu sylw at un ddeilen werdd yng nghanol y dail.

● Pwysleisio bod dau fath o goed yn tyfu yng Nghymru: coed sy'n colli eu dail – collddail a choed sydd â dail gwyrdd drwy'r flwyddyn – bythwyrdd.

Trafodaeth bellach:

● Pam fod y rhan fwyaf o'r coed collddail yn colli eu dail yn nhymor yr hydref? Trafod fel mae'r tywydd yn oeri, mwy o law a gwynt, a phopeth yr adeg hon o'r flwyddyn yn llonyddu.

● Trafod fel mae rhai adar fel y gog a'r wennol wedi hedfan i wledydd cynnes. Y rheswm am hyn yw fod y tywydd yn oeri a dim bwyd ar eu cyfer (pryfed a lindys ydi bwyd yr adar hyn).

● Dyma'r tymor y bydd rhai anifeiliaid yn mynd i gysgu dros y gaeaf, e.e. y draenog, y pathew, y neidr, y falwoden a'r ystlum. Dydi'r wiwer lwyd na'r wiwer goch ddim yn gaeafgysgu. Llonyddu mae'r wiwer goch ond mae'r wiwer lwyd yr un mor brysur ag erioed yn yr hydref a'r gaeaf.

● Pa dymor sy'n dilyn yr hydref? Bydd y tywydd yn gallu bod yn erwin iawn dros y gaeaf.

● Yn dilyn y gaeaf bydd y gwanwyn yn dod. Beth fydd yn digwydd i'r coed bryd hynny? Bydd y blagur yn agor. Dangos y brigyn sydd ar y coed yn barod dros y gaeaf. Beth fydd yn ymagor o'r blagur? Dail newydd gwyrdd ffres.

● Atgoffa'r plant o'r cylch dros y flwyddyn: hydref – dail yn syrthio; gaeaf – coed yn noeth; gwanwyn – dail newydd yn ymddangos; haf – dail ar eu gorau.

Stori:

'Beth sy'n bod?' gofynnodd y draenog i'r bioden, 'rwyt ti'n edrych ac yn swnio'n flin iawn heddiw.'

'Rydw i'n casáu'r hydref â chas perffaith,' meddai'r bioden.

'Pam felly?' holodd y draenog.

'Wel, yn y gwanwyn a'r haf mae'r coed i gyd yn llawn dail ac mi fedra i guddio yng nghanol y dail. Fydd yna'r un aderyn arall, na hyd yn oed greadur gwyllt arall, yn gallu fy ngweld. Ond yn yr hydref mae'r coed yn colli'u dail ac felly fedra i ddim cuddio. Does gen i ddim plu sy'n help i mi guddio. Plu du a gwyn sydd gen i. Dyna pam rydw i'n casáu'r hydref. Beth amdanat ti?' gofynnodd i'r draenog.

'Mi ydw i wrth fy modd yn yr hydref. Dyma'r tymor gorau o'r flwyddyn i gyd,' meddai'r draenog.

'Pam felly?' gofynnodd y bioden.

'Dyma'r adeg y bydda i'n paratoi i fynd i gysgu dros y gaeaf. Mae'r dail i gyd wedi syrthio oddi ar y coed ac wedyn mi fydda i'n gwneud gwely cynnes ohonyn nhw ac yn mynd iddo pan fydd y tywydd yn dechrau oeri. A dyna lle bydda i wedyn yn cysgu'n drwm nes daw y gwanwyn i 'neffro fi. Ond cofia, mae'n rhaid i mi fwyta digon o falwod a gwlithod i 'nghadw i fynd dros y gaeaf,' atebodd y draenog.

'Pawb at y peth y bo,' meddai'r bioden yn swta gan hedfan i ffwrdd.

Trafodaeth bellach:

- Pam oedd y bioden yn casáu'r hydref?
- Pam oedd y draenog mor hoff o dymor yr hydref?
- Ydych chi'n hoffi tymor yr hydref? Pam?

Emyn: Ti biau'r ddaear: Mwy o Glap a Chân 17

Munud i feddwl:

Hydref – gwên olaf y flwyddyn. William Bryant

Mae tymor yr hydref yn cario mwy o aur yn ei boced na'r un tymor arall. Jim Bishop

Hydref gwlyb – gaeaf caled. Hen Ddywediad

Mae'r Beibl yn dweud bod yr adar yn gwybod pa bryd i adael y wlad am dywydd cynhesach:
Mae'r crëyr yn gwybod pryd i fudo,
a'r durtur, y wennol a'r garan. Jeremeia 8:7 beibl.net

Myfyrdod/Gweddi:

Diolch am y tymhorau, hydref, gaeaf, gwanwyn a haf. Diolch am y coed. Maen nhw'n hardd yn y gwanwyn a'r haf ac maen nhw'n hardd hefyd yn yr hydref a'r gaeaf. Diolch. Amen.